# HEN GRAIR DIWYLLIANNOL MEWN OCSIWN

## gan D. G. LLOYD HUGHES

AR HAP mewn ocsiwn ym Mangor digwyddodd Mr R. E. a Mrs J. V. Jones, Ewyn-y-don, Ffordd Caerdydd, Pwllheli, weld cist dderw fechan dwy droedfedd o hyd, troedfedd o led a throedfedd o uchder, gyda drôr fechan, a dwy ddolen haearn ym mhob pen ar gyfer ei chodi.

Ar yr olwg gyntaf nid oedd dim neilltuol yn perthyn iddi ond sylwyd bod plât pres ar y caead. Arno roedd y geiriau:

*CYMDEITHAS GYMROAIDD PWLLHELI*
*Ffurfiwyd Mehefin 6ed 1823*

Teimlodd y ddau, er na wyddent ar y pryd ddim am fodolaeth y gymdeithas, heb sôn am ei hanes, na allent anwybyddu'r cyfle annisgwyliadwy hwnnw i sicrhau dychweliad yr hen grair i'r dref ac fe'i prynwyd. A minnau wedi ymddiddori ar hyd fy mywyd yn hanes Pwllheli teimlaf yn ddiolchgar dros ben i'r ddau am yr hyn a wnaethant.

Sefydlwyd nifer fawr o gymdeithasau yng Nghymru yn ystod yr 1820au yn dilyn yr adfywiad diwylliannol Cymreig a ddisgrifir mor ddiddorol gan Prys Morgan yn ei lyfr *The Eighteenth — Century Renaissance* (Llandybïe, 1981). Enwyd y rhan fwyaf ohonynt yn Gymdeithasau Cymreigyddol, fel yr un a sefydlwyd yn Llundain yn 1794. Yn flaenllaw yn y gymdeithas honno yr oedd Thomas Roberts, Llwyn'rhudol, Pwllheli, ac fe demtir dyn i gredu, onibai am y dewis o'r enw 'Cymdeithas Gymroaidd' (un go anarferol ymhlith y cymdeithasau) bod ganddo rywfaint o law yn rhywle yn ei ffurfiad.


Offeiriadon Anglicanaidd — 'Yr Hen Bersoniaid Llengar', chwedl R. T. Jenkins yn *Hanes Cymru yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* — oedd wrth gefn sefydlu'r cymdeithasau mewn llawer man, ac fe welir enwau dau o Lŷn ac Eifionydd ymhlith swyddogion Cymdeithas Gymroaidd Pwllheli yn hanes y ffurfiad yn rhifyn Medi, 1823, o *Seren Gomer*.

Y llywydd oedd y Parchg. John Kyffin, ficer Llanystumdwy, a'r caplan y Parchg. William Williams, ficer Llannor a Deneio. Y rhaglaw oedd John Ellis, cyfreithwr ym Mhwllheli y trysorydd oedd ei frawd, Richard Ellis, swyddog tollau — y ddau'n eglwyswyr. Bedyddiwr oedd bardd y gymdeithas, Dewi Wyn o Eifion, ac y mae'n debygol mai un blaenllaw o'r un enwad oedd y cofiadur, William Jones. Tybiaf mai William Jones y Drygist (yn ddiweddarach y masnachwr coed, ac adeiladwr a pherchennog llongau) oedd hwnnw. Eglwyswr, ficer Edern, oedd prif areithiwr y cyfarfod agoriadol hefyd.

Roedd Methodistiaeth ar gynnydd cyflym yn yr ardal erbyn yr 1820au ond adlewyrcha enwau'r swyddogion, yn enwedig y rhai eglwysig, duedd ymhlith yr hen bersoniaid i ymladd dylanwad cynyddol yr enwad newydd. Eithr amheuir a fuasai'r Parchg. Michael Roberts, 'gweinidog' y Methodistiaid Calfinaidd ym Mhwllheli wedi dangos llawer o ddiddordeb yn y gymdeithas, ac yntau'n brysur ynglŷn â Chyffes Ffydd a Gweithred Gyfansoddiadol yr enwad tua'r amser y ffurfiwyd y gymdeithas.

Mae darganfod y gist yn awgrymu'r bwriad i ddiogelu cofnodion a gweithgarwch y gymdeithas ond, yn anffodus, ni wyddys am ba hyd y parodd hi. Nid oedd y *North Wales Gazette,* o Fangor, yn cofnodi fawr ddim o ddigwyddiadau Cymraeg y sir fel y gwnâi, er enghraifft, y *Carmarthen Journal* o dro i dro yn y de, a'r unig gyfeiriad at gymdeithas Pwllheli yn *Seren Gomer* oedd hwnnw yn 1823.

Ofnaf, mewn gwirionedd, mai byr oedd ei hoedl oblegid bu farw John Ellis yn 1824. Byddai colli yr arian byw hwnnw yn y swydd allweddol o raglaw yn sicr o fod yn ergyd drom. Ac yntau wedi priodi Saesnes ac yn gynhaliwr brwd i'r drefn weinyddol Seisnig ei hawyrgylch mae'n ddiddorol, serch hynny, fel y parhâi i ymddiddori yn y diwylliant brodorol.



# GŴR Y GÂN

## gan RHIDIAN GRIFFITHS

Y MAE 1996 yn ganmlwyddiant geni un o gerddorion amlwg Cymru, un a gyfrannodd yn helaeth at ein llenyddiaeth gerddorol. Ganed W. S. Gwynn Williams 4 Ebrill 1896, yn fab i gerddor o Langollen, W. Pencerdd Williams (1856-1924), a bu farw yn 1978. Ei waddol amlycaf i'w genedl oedd ei ran yn sefydlu Eisteddfod Gydwladol Llangollen, y bu'n Gyfarwyddwr Cerddorol iddi am flynyddoedd — gwyrth hynod o gân a dawns a fydd hithau'n dathlu ei hanner canmlwydd yn 1997.

Ond mae cyfraniad Gwynn Williams yn llawer mwy na hynny. Cyfansoddodd yn helaeth, a chlywir canu cyson ar rai o'i unawdau, yn enwedig 'Duw Ŵyr', a gyhoeddwyd gan Hughes a'i Fab yn 1918; 'My Little Welsh Home', a gyhoeddwyd gan Chappell y flwyddyn ganlynol; a 'Tosturi Duw', a gyhoeddwyd gan ei gwmni ei hun, Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Bu'n Gyfarwyddwr Cerdd yr Orsedd, ac ef sy'n gyfrifol am y gosodiad cerddorol o'r Weddi.

Bu'n olygydd ar *Y Cerddor Newydd* o 1922 hyd 1929, a rhoi gwedd ffres ar gylchgrawn a fu'n ymddangos yn fisol ers Ionawr 1889. Yn ddiweddarach, arbrofodd â chylchgrawn arall, *Y Delyn: the Welsh Music Review,* ond tri rhifyn yn unig a ymddangosodd: Gwanwyn, Haf a Gaeaf 1947.

Rhoddodd Gwynn Williams lawer o sylw i faes cerddoriaeth werin. Gweithredodd am gyfnod o ddeugain mlynedd yn ysgrifennydd, ac yna'n gadeirydd, Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, ac yn olygydd ei *Chylchgrawn* am gyfnod o 30 mlynedd. Cyhoeddodd gasgliadau o alawon, gan gynnwys *Old Welsh Folk-Songs* (Curwen, 1927), a *Caneuon Traddodiadol y Cymry* yn ddwy gyfrol (Gwynn, 1961, 1963). Ysgrifennodd ymdriniaeth arloesol dan y teitl *Welsh National Music and Dance,* arolwg prin o faes cerddoriaeth draddodiadol Gymreig, yr ymddangosodd pedwar argraffiad ohono rhwng 1932 ac 1971.

Un o'i gyfraniadau amlycaf i lenyddiaeth gerddorol oedd sefydlu Cwmni Cyhoeddi Gwynn. Bu'n gysylltiedig â Hughes a'i Fab fel golygydd cerddorol am sawl blwyddyn cyn sefydlu'r tŷ cyhoeddi newydd yn Llangollen yn niwedd y tridegau. 1937 yw'r argraffnod cynharaf a restrir yn *Bibliotheca Celtica* i eitem o Wasg Gwynn, sef 'Y Carwr Ffyddlon', rhangan i leisiau meibion gan Vincent Thomas. Yna ar gyfer 1938 rhestrir cynifer â phedwar ugain eitem amrywiol, yn unawdau, rhanganau a darnau offerynnol. Fel y gwyddys, datblygodd y wasg gatalog sylweddol, ac mae'n dda dweud bod cynnwys hwnnw'n dal ar gael. Un o gymwynasau mawr y cwmni oedd darparu fersiynau Cymraeg o weithiau Ewropeaidd gan gyfansoddwyr megis Arcadelt, Kodaly a Lasso. Ond bu'n gyfrwng hefyd i ddwyn i'r golwg gynnyrch cyfansoddwyr o Gymry megis Osborne Roberts, Matthews Williams a Meirion Williams. Byddai unrhyw gasgliad o argraffiadau Gwynn yn ddrych i dalp o fywyd cerddorol Cymru yn yr ugeinfed ganrif.